Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(117)v5

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Ardrethi Busnes (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid - Gohiriwyd tan 23 Ebrill**

**5. Dadl: Yr Ail Gyllideb Atodol 2012-13 (30 munud)**

NDM5162 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 5 Chwefror 2013.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol

Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

I) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

II) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

III) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

IV) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

V) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol:**
Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13
Nodyn Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Papur Ymchwil: Yr Ail Gyllideb Atodol 2012-13 (Chwefror 2013) - Y Gwasanaeth Ymchwil

**6. Dadl: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (60 munud)**

NDM5174 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2013 i gydnabod rôl a chyfraniad menywod yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod dewrder menywod sydd wedi cael eu cam-drin am roi gwybod am ddigwyddiadau ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo strategaeth integredig ar gyfer mynd i'r afael â thrais domestig a rhywiol.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio dulliau o gynyddu nifer y menywod sydd mewn sefyllfa o bwer a dylanwad yng Nghymru.

**7. Dadl ar Ymateb Gweinidogion Cymru i argymhellion Comisiynydd y Gymraeg ar safonau iaith Gymraeg (60 munud)**
**NNDM5176 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi bod:

(a) y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi penderfynu peidio symud ymlaen gyda safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg;

(b) y Gweinidog nawr yn bwriadu adeiladu ar ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg, i ddatblygu cyfres o safonau a fydd yn sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg, o ran gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg; ac

(c) y Gweinidog yn bwriadu gwneud gyda chymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, reoliadau yn gwneud y gyfres gyntaf o safonau, a gwneud y safonau hynny yn benodol gymwys i bersonau, erbyn diwedd 2014.

*Gellir gweld safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg drwy ddilyn y linc isod:*
*http://www.comisiynyddygymraeg.org/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/manylioncyhoeddiad.aspx?publicationid=50faecf9-67bb-4058-af3c-9ecdc6d14739&year=2012*

*Gellir gweld ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg drwy ddilyn y linc isod:*

*http://www.comisiynyddygymraeg.org/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/manylioncyhoeddiad.aspx?publicationid=3b166697-643b-435d-ac82-463543fb5cae&year=2012*

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu ein bod, dros ddwy flynedd ar ôl pasio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn parhau i fod yn bell iawn o fabwysiadu set ffurfiol o safonau ar gyfer gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg.

Gellir gweld Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, fel y'i pasiwyd, drwy ddilyn y linc isod: http://www.cynulliadcymru.org/welsh_language_measure_as_passed-e.pdf

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen weithredu fanwl ar gyfer cyflwyno safonau iaith Gymraeg erbyn 2014.

**8. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (60 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

**1. Technegol a chanlyniadol**

28, 29, 14, 26, 15A, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24

**2. Cynllun dirprwyo**

2, 3

3. Aelodau sy’n gyflogeion SAC
4, 5, 6, 7, 25

4. Cynllun blynyddol
8, 9, 11

5. Paratoi adroddiadau interim
10, 12, 13

6. Trosglwyddo staff i SAC
1*, 1A*, 27
* Caiff y gwelliannau hyn eu gwaredu yn y drefn a ganlyn—1A, 1

Dogfennau Ategol:
Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o welliannau wedi’u didoli
Grwpio Gwelliannau

**9. Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir ar y cynnig

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 6 Mawrth 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Chwefror 2013 i'w hateb ar 5 Mawrth 2013

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Sandy Mewies (Delyn)**: Pa gefnogaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. OAQ(4)0940(FM)

2. **Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dlodi plant yn Ne Caerdydd a Phenarth. OAQ(4)0945(FM)

3. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. OAQ(4)0949(FM)

4. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael â Llywodraeth y DU am y bwriad i breifateiddio rhannau helaeth o'r gwasanaeth prawf. OAQ(4)0938(FM)W

5. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Pa wersi y gall Cymru eu dysgu o Adroddiad Francis ar ofal cleifion yn Ysbyty Ymddiriedolaeth GIG Canolbarth Swydd Stafford. OAQ(4)0937(FM)

6. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad yn amlinellu manteision Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo i gymunedau yng Nghymru. OAQ(4)0941(FM)

7. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu cynllun gwarant morgais Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0939(FM)

8. **Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu gofal i'r newydd-anedig yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0944(FM)

9. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am system anrhydeddu arfaethedig Cymru. OAQ(4)0943(FM)

10. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaethau Llywodraeth Cymru o ran asesu a mynd i'r afael â chaethiwed i hapchwarae. OAQ(4)0946(FM)

11. **David Rees (Aberafan)**: A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU am reoleiddio asiantaethau sy'n cyflenwi athrawon i ysgolion. OAQ(4)0947(FM)

12. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddiwygio Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo. OAQ(4)0948(FM)

13. **Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**: O gofio anallu parhaus Byrddau Iechyd Lleol i gadw o fewn eu cyllideb, pa ystyriaeth fydd y Prif Weinidog yn ei rhoi i ganiatáu'r un amserlen gyllidebu 3 blynedd iddynt ag a ganiatawyd i awdurdodau lleol. OAQ(4)0936(FM)

14. **Elin Jones (Ceredigion)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith y gyllideb Ewropeaidd ar Gymru. OAQ(4)0942(FM)W

15. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddiwydiant y cyfryngau yng Nghymru. OAQ(4)0935(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 12 Mawrth a dydd Mercher 13 Mawrth 2013

Dydd Mawrth 19 Mawrth a dydd Mercher 20 Mawrth 2013

Toriad: Dydd Llun 25 Mawrth - dydd Sul 14 Ebrill 2013

Dydd Mawrth 16 Ebrill a dydd Mercher 17 Ebrill 2013

**********************************************************************

Dydd Mawrth 12 Mawrth 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Adroddiad Guildford ar y Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2014-2020 (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Rhagor o Brentisiaethau yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth:  Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd i Gymru (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Adroddiad Diweddaru ar Hwyluso'r Drefn - Ehangu Busnes y Fferm (30 munud)
- Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013 (15 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) (15 munud)
- Dadl: Ansawdd yn GIG Cymru - sicrhau dysgu o Adroddiad Francis (60 munud)

Dydd Mercher 13 Mawrth 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 01-13) (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 22.9 (Adroddiad 02-13) (15 munud)
- Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) (60 munud)

Busnes y Llywodraeth

- Penderfyniad ariannol ar y Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru) (5 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
  NNDM5181
  Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)
  Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
  Yn penderfynu cefnogi'r egwyddor o gynnal gwrandawiadau cyn cadarnhau yng nghyswllt apwyntiadau cyhoeddus pwysig yng Nghymru.
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)

Dydd Mawrth 19 Mawrth 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cymunedau yn Gyntaf (30 munud)

- Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (30 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2011-12 (60 munud)
- Dadl: Llais y Cleifion - Cryfhau Rôl y Cynghorau Iechyd Cymunedol (60 munud)

Dydd Mercher 20 Mawrth 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl Cyfnod 1 ar Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (60 munud)

Busnes y Llywodraeth

- Penderfyniad ariannol ar Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (5 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer - Ken Skates (De Clwyd) (30 munud)

Dydd Mawrth 16 Ebrill 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013 (15 munud)
- Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013 (15 munud)

- Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) (5 munud)
- Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 17 Ebrill 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)